CYNNWYS

Cwblhau'r Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati	TN1
Incwm o ymddiriedolaethau a setliadau	TN1
■ ***Buddiolwyr***	TN1
■ ***Setlwyr***	TN1
Incwm o ystadau'r ymadawedig	TN2
■ ***Cymynroddion***	TN2
■ ***Buddiolwyr gweddill***	TN2
● Buddiannau cyfyngedig	TN2
● Buddiannau absoliwt	TN2
● Buddiannau dewisol	TN2
● Buddiannau olynol	TN2
● Ystadau tramor	TN3
● Treth dramor a dalwyd	TN3

TAFLENNI CYMORTH A THAFLENNI

Mae Taflenni Cymorth a thaflenni sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am rai rheolau treth ar gael o'r Llinell Archebu. Mae un ar gael ar gyfer ymddiriedolaethau.

- *IR270: Trusts and settlements - income treated as the settlor's*

Cwblhau'r Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati

Cwblhewch y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati os derbynioch unrhyw incwm ym 1999-2000 o ymddiriedolaeth, setliad neu ystad person ymadawedig. Mae'r Nodiadau hyn yn dweud wrthych beth i'w wneud.

Casglwch ynghyd y deunydd sydd ei angen arnoch, fel datganiadau o symiau a dalwyd o ystad person ymadawedig (a baratowyd gan y cynrychiolydd personol).

Incwm o ymddiriedolaethau a setliadau

■ *Buddiolwyr*

blychau 7.1 i 7.6A Os mai chi yw buddiolwr ymddiriedolaeth hawl absoliwt (bare trust), hynny yw un lle mae gennych hawl absoliwt i'r incwm a'r cyfalaf o'r ymddiriedolaeth neu'r setliad, peidiwch â chynnwys yr incwm hwn ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Caiff yr incwm hwn ei drin fel petai'n perthyn i chi ac nid i'r ymddiriedolwyr, a dylai gael ei gynnwys yn y tudalennau ar eich Ffurflen Dreth sy'n delio â'r math o incwm dan sylw.

Os oedd gennych hawl absoliwt i incwm ond nid i gyfalaf o ymddiriedolaeth neu setliad:

- peidiwch â nodi unrhyw ddifidendau sgrip. Dylai'r rhain gael eu cynnwys ym mlychau 10.21 i 10.29 ar dudalen 3 eich Ffurflen Dreth
- peidiwch â nodi incwm o ffynonellau tramor. Dylai hwn gael ei gynnwys ar y Tudalennau Tramor os ydych yn preswylio yn y DG
- dylech eithrio unrhyw incwm gros o ymddiriedolaeth a dderbynioch, fel incwm o eiddo. Dylai'r incwm hwn gael ei gynnwys ar dudalennau eich Ffurflen Dreth sy'n delio â'r ffynhonnell arbennig honno o incwm
- nodwch ym mlychau 7.1A i 7.3A incwm y talwyd treth arno ar y gyfradd sylfaenol (23%). Nodwch ym mlwch 7.1A yr incwm gwirioneddol y mae hawl gennych iddo, ym mlwch 7.2A y Dreth Incwm a ddidynnwyd, ac ym mlwch 7.3A yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy')
- nodwch ym mlychau 7.4 i 7.6 incwm y didynnwyd treth ohono, neu sydd â chredyd treth, ar y gyfradd is (20%). Nodwch ym mlwch 7.4 yr incwm gwirioneddol y mae hawl gennych iddo, nodwch ym mlwch 7.5 y dreth a ddidynnwyd neu'r credyd treth a nodwch ym mlwch 7.6 yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy').
- ym mlwch 7.4A hyd 7.6A rhowch yr incwm sydd â chredyd treth ar y gyfradd ddifidend (10%). Ym mlwch 7.4A rhowch yr incwm gwirioneddol y mae gennych hawl iddo, ym mlwch 7.5A rhowch y credyd treth, ac ym mlwch 7.6A rhowch yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy').

Bydd yr ymddiriedolwr yn gallu dweud wrthych pa fathau o incwm a dderbyniwyd ar eich rhan.

Os nad oedd gennych hawl absoliwt i incwm o ymddiriedolaeth neu setliad, ac os oedd yr ymddiriedolwyr yn **preswylio** yn y DG at ddibenion treth, nodwch ym mlwch 7.1 yr incwm gwirioneddol a dderbyniasoch, nodwch ym mlwch 7.2 y Dreth Incwm a ddidynnwyd a nodwch ym mlwch 7.3 yr incwm cyn treth. Gallwch gael y ffigurau hyn o'r daleb treth a ddarperir gan yr ymddiriedolwyr. Os hoffech wneud cais am ryddhad o dan Gonsesiwn Statudol Ychwanegol B18, cysylltwch â'r:

Financial Intermediaries and Claims Office (FICO)
St John's House
Merton Road
Bootle, Merseyside,
England
L69 9BB.
Ffôn 0151 472 6000

Os nad oedd gennych hawl absoliwt i incwm gan ymddiriedolaeth neu setliad, ac os **nad** yw'r ymddiriedolwyr yn **preswylio** yn y DG at ddibenion treth incwm, ni ddylid nodi dim ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Yn lle hynny, cwblhewch y Tudalennau Tramor. Yr eithriad i hyn yw os byddwch am wneud cais am ryddhad o dan Gonsesiwn Statudol Ychwanegol B18. Yn yr achos hwn, cysylltwch â'r Financial Intermediaries and Claims Office (FICO) - yn y cyfeiriad yn y paragraff blaenorol.

■ *Setlwyr*

blychau 7.1 i 7.6A Mae setliad yn cynnwys ymddiriedolaeth, cyfamod, gwaredu, trefnu neu drosglwyddo asedion. Os ydych wedi darparu arian ar gyfer setliad yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gall ei incwm gael ei drin fel eich un chi at ddibenion treth. Gall hyn fod yn gymwys:

- os gallwch chi neu eich cymar elwa ar unwaith neu yn y dyfodol o gyfalaf neu incwm y setliad, **neu**
- os telir cyfalaf neu incwm y setliad i, neu er lles, eich plentyn neu lysblentyn dibriod tra bod y plentyn hwnnw o dan 18 oed, **neu**
- os yw'r setliad yn gyfamod ar gyfer taliadau i elusen (ni ddylai'r cyfamod hwn fod yn fwy na thair blynedd), **neu**
- os ydych chi neu eich cymar wedi derbyn benthyciad neu ad-daliad o fenthyciad gan ymddiriedolwyr y setliad.

Os credwch y gallai un o'r sefyllfaoedd hyn fod yn gymwys i chi, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR270: Trusts and settlements - income treated as the settlor's.*

Mae'r ffordd rydych yn cynnwys yr incwm ar eich Ffurflen Dreth yn dibynnu ar p'un a yw'r ddogfen ymddiriedolaeth yn rhoi hawl absoliwt i chi i'r incwm o'r ymddiriedolaeth ai peidio. Os bydd, yna dim ond Treuliau Rheoli'r Ymddiriedolaeth a ddidynnwyd wrth bennu eich incwm gaiff eu hystyried fel eich rhai chi - bydd yr holl incwm arall eisoes yn perthyn i chi. Os na fydd, yna bydd yn rhaid ystyried bod yr holl incwm yn perthyn i chi.

Os na fydd y ddogfen ymddiriedolaeth yn rhoi hawl absoliwt i chi i incwm yr ymddiriedolaeth (ond nid y cyfalaf), yna dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer blychau 7.1 i 7.6A o dan y pennawd 'Buddiolwyr' ar dudalen TN1. Hefyd, bydd angen i chi wneud cofnod ym mlychau 13.1 i 13.3 ar dudalen 4 eich Ffurflen Dreth. Mae'r arweiniad ar Daflen Gymorth IR270 yn dweud wrthych sut i gyfrifo'r cofnodion ar gyfer y blychau hyn. Os na fydd y ddogfen ymddiriedolaeth yn rhoi hawl absoliwt i chi i'r incwm, nodwch yr incwm gwirioneddol heb ddidynnu Treuliau Rheoli'r Ymddiriedolaeth. Ym mlwch 7.4A i 7.6A rhowch yr incwm sydd â chredyd treth ar y gyfradd ddifidend (10%). Ym mlwch 7.4A rhowch yr incwm gwirioneddol, ym mlwch 7.5A rhowch y credyd treth ac ym mlwch 7.6A rhowch yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy'). Ym mlychau 7.1A hyd 7.3A rhowch yr holl incwm arall. Ym mlwch 7.1A rhowch yr incwm gwirioneddol, ym mlwch 7.2A y Dreth Incwm a ddidynnwyd, ac ym mlwch 7.3A yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy').

Incwm o ystadau'r ymadawedig

Cymynroddion

Os gadawyd cymynrodd i chi - sef swm penodol o arian neu ased penodol - ni fyddwch yn talu treth arni. Peidiwch â chynnwys y swm ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Os oedd y gymynrodd yn cynnwys ased sy'n cynhyrchu incwm (er enghraifft cyfrif banc, neu eiddo ar osod) ac mae hawl gennych i'r incwm hwnnw, dylid ei gynnwys yn y rhan honno o'ch Ffurflen Dreth sy'n ymdrin â'r math o incwm dan sylw. Dylai rhent o eiddo a gaiff ei osod, er enghraifft, gael ei gynnwys yn y Tudalennau Tir ac Eiddo yn eich Ffurflen Dreth.

Os cawsoch log ar eich cymynrodd, oherwydd iddi gael ei thalu'n hwyr, neu os cawsoch log ar gais am hawl gyfreithiol mewn ystad yn yr Alban, dylech gynnwys y llog hwnnw ym mlychau 10.12 i 10.14 ar dudalen 3 eich Ffurflen Dreth.

Buddiolwyr gweddill

Gweddill yr ystad yw'r swm sy'n weddill ar ôl i'r cynrychiolwyr personol ddarparu ar gyfer pob cymynrodd, dyled a thraul. Y cynrychiolwyr personol yw ysgutorion neu weinyddwyr ystad y person ymadawedig. Buddiolwyr gweddill yw pobl sydd â hawl i weddill cyfan ystad neu ran ohoni. Mae rheolau treth arbennig yn berthnasol iddynt. Os ydych yn fuddiolwr gweddilliol mae gennych yr hawl i gael datganiad gan y cynrychiolwyr personol sy'n nodi'r swm a gaiff ei drin fel eich incwm ar gyfer 1999-2000 ac mae gennych yr hawl hefyd i'r dreth gael ei thrin fel treth a dalwyd. Os cawsoch daliad, boed hynny'n incwm neu'n gyfalaf, ym 1999-2000 ond nid ydych wedi derbyn datganiad, a roddir fel arfer ar ffurflen R185 (Incwm Ystad), dylech ofyn i'r cynrychiolwyr personol roi un.

Bydd y wybodaeth a roddir ar y datganiad yn eich galluogi i gwblhau'r Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati fel y disgrifir isod. Dylech roi enw'r ystad(au) yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar Dudalen T1 neu T2.

• Buddiannau cyfyngedig

Os byddwch ond yn gallu derbyn o incwm yr ystad (er enghraifft, os ydych yn denant oes neu mewn ystad yn yr Alban, yn 'liferenter') mae gennych yr hyn a elwir yn 'fudd cyfyngedig yn y gweddill'.

Oni chwblhawyd y gweinyddu yn y flwyddyn honno, caiff y swm a gawsoch mewn gwirionedd ym 1999-2000 ei drin fel eich incwm am y flwyddyn honno. Os cwblhawyd gweinyddiaeth yr ystad ym 1999-2000, eich holl incwm sy'n ddyledus i chi na chafodd ei drin eisoes fel eich incwm mewn blynyddoedd cynharach, fydd eich incwm am y flwyddyn honno. Dylech ddilyn y cyngor a roddir yn y golofn nesaf o dan y pennawd 'blychau 7.7 i 7.24'.

• Buddiannau absoliwt

Os oes gennych hawl i dderbyn incwm a chyfalaf y gweddill neu gyfran yn y gweddill, mae gennych yr hyn a elwir yn 'fudd absoliwt yn y gweddill'. Os oes gennych fudd absoliwt cewch eich trin fel petaech yn derbyn incwm o'r ystad o dan rai amgylchiadau. Cyfrifir eich cyfran o incwm yr ystad drwy ddidynnu treuliau a godir ar incwm o'r incwm a dderbynnir gan y cynrychiolwyr personol. Os cawsoch daliad neu daliadau o'r ystad ym 1999-2000, eich incwm am y flwyddyn honno fydd naill ai swm y taliadau a gawsoch neu'r incwm y gellir ei briodoli i chi am yr holl flynyddoedd (os na chafodd ei drin eisoes fel eich incwm am flynyddoedd cynharach) p'un bynnag yw'r swm isaf. Os daeth gweinyddiaeth yr ystad i ben ym 1999-2000, dylech gael eich trin fel petaech wedi derbyn yr incwm a gododd yn ystod y flwyddyn honno ac unrhyw incwm o'r ystad nad yw eisoes wedi cael ei drin fel eich incwm ar gyfer blynyddoedd cynharach.

Efallai bod incwm a gronnodd yn ystod oes y person ymadawedig ond a dalwyd ar ôl eu marwolaeth wedi cael ei ystyried fel rhan o'u hystad at ddibenion Treth Etifeddiant ac fel incwm ystad at ddibenion Treth Incwm. Os digwyddodd hyn yn yr ystad lle y cewch eich trin fel petaech wedi derbyn incwm, ac rydych yn agored i dreth ar y gyfradd uwch, mae yna ryddhad treth arbennig a allai eich helpu. Mae'n llwyddo i leihau swm yr incwm yr ystyrir eich bod yn ei dderbyn o'r ystad. Os bydd y cynrychiolwyr personol wedi rhoi datganiad i chi sy'n cyfeirio at 'ryddhad Adran 699' defnyddiwch y symiau hynny pan fyddwch yn cwblhau eich Ffurflen Dreth. Fel arall, os credwch y gallai hyn fod yn berthnasol i chi, cysylltwch â'ch swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch ymgynghorydd treth.

• Buddiannau dewisol

Os oes gennych yr hawl i incwm o weddill ystad dim ond am fod y cynrychiolwyr personol wedi arfer disgresiwn o'ch plaid, dylech fod wedi derbyn datganiad o incwm y dylid ei nodi ar eich Ffurflen Dreth.

• Buddiannau olynol

Os bydd y buddiolwr gweddilliol yn marw wrth weinyddu ystad neu os caiff telerau ewyllus (neu reolau diffyg ewyllys) eu hamrywio â chaniatâd y buddiolwr gwreiddiol, bydd rheolau arbennig yn berthnasol. Trethir y buddiolwyr gwreiddiol ar unrhyw incwm a delir mewn gwirionedd iddynt. Caiff buddiolwyr newydd eu trin fel petaent wedi bod yn fuddiolwyr gweddilliol o'r cychwyn - yn amodol ar ddidyniad ar gyfer symiau a dalwyd i'r buddiolwyr gwreiddiol ac a gaiff eu trin fel eu hincwm. Mae hyn yn sicrhau bod pob buddiolwr yn cael ei drethu ar gyfran incwm yr ystad a delir iddynt mewn gwirionedd.

blychau 7.7 i 7.24 Os cewch eich trin fel petaech yn derbyn incwm o ystad, dylech fod wedi derbyn datganiad ar ffurflen R185 (Incwm Ystad) gan y cynrychiolwyr personol. Gan ddechrau gyda'r ffigurau ar y datganiad hwnnw, rhowch swm net:

- incwm a drethir ar y gyfradd sylfaenol ym mlwch 7.7
- incwm a drethir ar gyfradd gynilo (neu'r gyfradd is) ym mlwch 7.10
- incwm a drethir ar y gyfradd ddifidend (neu a ddisgrifir fel cyfradd gyffredin Atodlen F) pan fydd y dreth yn ad-daladwy, ym mlwch 7.13
- incwm a drethir ar y gyfradd sylfaenol pan na fydd y dreth yn ad-daladwy ym mlwch 7.16
- incwm a drethir ar y gyfradd gynilo (neu is) pan na fydd y dreth yn ad-daladwy, ym mlwch 7.19
- incwm a drethir ar y gyfradd ddifidend (neu a ddisgrifir fel cyfradd gyffredin Atodlen F) pan na fydd y dreth yn ad-daladwy ym mlwch 7.22.

Rhowch y symiau treth a ddangosir ar y datganiad yn:

- blwch 7.8 ar gyfer treth cyfradd sylfaenol
- blwch 7.11 ar gyfer treth cyfradd gynilo (is)
- blwch 7.14 ar gyfer treth cyfradd ddifidend ad-daladwy
- blwch 7.17 ar gyfer treth cyfradd sylfaenol nad yw'n ad-daladwy
- blwch 7.20 ar gyfer treth cyfradd gynilo nad yw'n ad-daladwy
- blwch 7.23 ar gyfer treth cyfradd ddifidend nad yw'n ad-daladwy

Ym mlychau 7.9, 7.12, 7.15, 7.18, 7.21 a 7.24 rhowch y symiau trethadwy, hynny yw, y symiau net ynghyd â'r dreth.

- Ystadau tramor

Ystad tramor yw un lle nad yw incwm yr ystad wedi dwyn treth lawn y DG am nad yw'r cynrychiolwyr personol yn preswylio nac fel arfer yn preswylio yn y DG neu am fod y person ymadawedig wedi marw yn ei breswylfan sydd y tu allan i'r DG a daeth incwm tramor i'r ystad. Os ydych wedi derbyn incwm o'r gyfryw ystad, dylech roi'r swm cyfan ym mlwch 7.7 **ac** ym mlwch 7.9. Ni ddylid rhoi unrhyw ffigwr ym mlwch 7.8 ar gyfer treth a ddidynnwyd. Fodd bynnag os codwyd Treth Incwm y DG ar yr ystad dramor, bydd angen i swm yr incwm a roddwyd ym mlychau 7.7 a 7.9 gael ei leihau yn gyfatebol gan y swm canlynol:

$$\frac{\text{swm net yr incwm sydd wedi dwyn treth yn y DG}}{\text{cyfanswm incwm yr ystad llai treth yn y DG}} \times \text{cyfanswm incwm yr ystad cyn treth yn y DG}$$

Dylech dynnu'r swm uchod o'r ffigwr i'w nodi ym mlwch 7.7 a 7.9.

- Treth dramor a dalwyd

blwch 7.25 **Os derbyniasoch incwm sy'n drethadwy i dreth yn y DG ond sydd hefyd wedi cael ei drethu mewn gwlad dramor, efallai y bydd hawl gennych i wneud cais am gredyd ar gyfer y dreth dramor a dalwyd wrth gyfrifo eich rhwymedigaeth treth yn y DG. Gelwir hyn yn 'rhyddhad credyd treth'.**

Bydd rhyddhad credyd treth fel arfer yn fuddiol, ond os **nad** ydych am wneud cais amdano, gallwch ddidynnu'r dreth dramor a dalwyd ar eich incwm yn lle hynny. **Ond ni allwch wneud cais am ryddhad credyd treth a didyniad ar gyfer yr un eitem o incwm.**

Nodwch ym mlwch 7.25 gyfanswm y dreth dramor a dalwyd **nad** ydych yn gwneud cais am ryddhad credyd treth amdani.

Os ydych **am** wneud cais am ryddhad credyd treth, cwblhewch y Tudalennau Tramor, a gadewch flwch 7.25 yn wag.

Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg ysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.